BBC
Bitesize

# Cymharu Dwy Gerdd

# Cerddi ‘Fy Milltir Sgwâr’ - Anni Llŷn

*Englyn:*

## Byw Mewn Tyddyn

Y berth, yn un su o berthyn – y pridd
a chlawdd praff a gwreiddyn,
pob awel oer, lloer a llyn
yw eiddo merch y tyddyn.

*Cerdd Rydd:*

## Grangetown

I rhythmau pell *Ghazal
rwy’n troedio’r pafin
a llusgo fy llaw hyd y wal.
Mae’r craciau,
a’r hyllbethau,
y briwiau
a’r tolciau,
i gyd yn guriadau.

Olion bywyd yw’r blerwch,
yn nodau **Nasheed o swynol.

Mae sdacato’r sbeisiau,
y cyfateb cytseiniau,
y Cerdd Dant
a’r plant sy’n chwarae
yn rhan o’r un gân,
a honno’n fy suo i gysgu
pob nos.

---

** math o farddoniaeth sy’n cael ei berfformio i gerddoriaeth, fel arfer yn yr ieithoedd Urdu neu Persian.*

*** math o gerddoriaeth islamaidd.*


© BBC